**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty**
**Minister for Finance and Leader of the House**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: SF/CS/0874/13

Rosemary Butler AC
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor
Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Mawrth 2013

Annwyl Rosemary

**Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013**

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu y bydd angen torri'r rheoli 21 diwrnod o un diwrnod er mwyn dod â **Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013** i rym yng Nghymru erbyn 1 Ebrill 2013, a hynny am resymau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau i sicrhau y bydd modd i awdurdodau lleol gael gwybodaeth o hyd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch eu cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Yr enw blaenorol arnynt oedd Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Rhannu Gwybodaeth) (Cymru) 2013, ond mae'r darpariaethau hyn bellach wedi'u drafftio drwy welliannau i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 2013 ("y rheoliadau gweinyddu a gorfodi") yn hytrach na fel set annibynnol o reoliadau. Teitl y rheoliadau diwygio hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2013 ("y rheoliadau diwygio"). Er nad oes effaith gyfreithiol i'r penderfyniad hwn i beidio â bwrw ymlaen â rheoliadau annibynnol, mae'n llai cymhleth yn weithredol i ymarferwyr llywodraeth leol, gan fod y rheoliadau gweinyddu a gorfodi cyfredol yn amlinellu darpariaethau rhannu data eisoes ar gyfer agweddau eraill ar y dreth gyngor.

Bydd y rheoliadau diwygio hefyd yn cael eu defnyddio i ehangu'r darpariaethau cosbi yn y rheoliadau gweinyddu a gorfodi er mwyn caniatáu casglu dirwyon a bennir yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013 ("y rheoliadau darganfod twyll").

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Ar 15 Chwefror, ysgrifennodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau at arweinwyr y gwrthbleidiau yn eu hysbysu am broblemau a allai amharu ar osod y rheoliadau hyn. Roedd hyn yn cynnwys y gofyniad i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi roi cydsyniad ffurfiol cyn bod modd gosod y rheoliadau. Er nad yw cydsyniad ffurfiol wedi dod i law, disgwylir ei gael erbyn 11 Mawrth: dyma'r dyddiad olaf y gellid gosod y rheoliadau diwygio ac iddynt ddod i rym erbyn 1 Ebrill er mwyn cydymffurfio â'r rheol 21 diwrnod ar gyfer y weithdrefn negyddol.

Fodd bynnag, wrth ddrafftio'r rheoliadau diwygio, nodwyd cyd-ddibyniaeth. Un o'r dibenion y gellir darparu gwybodaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi atynt yw darganfod ac atal troseddau'r dreth gyngor. Felly, mae gofyn cyfeirio at reoliadau darganfod twyll ar wyneb y rheoliadau diwygio. Hefyd, er mwyn ymestyn y darpariaethau cyfredol sy'n ymdrin â chasglu dirwyon i gy nnwys cosbau a gyflwynwyd drwy'r rheoliadau darganfod twyll, mae croesgyfeiriadau eraill yn ofynnol. I'r perwyl hwn, nid oes modd gosod y rheoliadau diwygio nes gwneud y rheoliadau darganfod twyll ar 12 Mawrth, yn dilyn dadl arnynt yn y cyfarfod llawn (yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cynulliad).

O ganlyniad, er mwyn roi effaith i'r rheoliadau diwygio erbyn 1 Ebrill, byddai angen torri'r rheol 21 diwrnod o un diwrnod. Er bod 1 Ebrill yn wyliau cyhoeddus, bernir y bydd angen gosod y rheoliadau diwygio erbyn y dyddiad hwn oherwydd y caiff budd-dal y dreth gyngor a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig ei diddymu ar 31 Mawrth. Ni fydd y porth cyfreithiol cyfredol sy'n caniatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio'r data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi at ddibenion budd-dal nawdd cymdeithasol hwn yn caniatáu iddynt ei ddefnyddio at ddibenion y dreth gyngor, gan gynnwys penderfynu ar hawl person i ostyngiad o dan gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Memorandwm Esboniadol hefyd wedi'i baratoi sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a chaiff ei osod, ynghyd â'r Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac at aelodau'r Pwyllgor Busnes.

Yn gywir iawn,

Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty
Minister for Finance and Leader of the House